Estyn

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

**Ymateb i Ymgynghoriad / Consultation Response**



| | |
|---|---|
| **Enw / Name:** | Claire Morgan |
| **Rôl / Role:** | Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru |
| **E-bost / Email:** | Prif-arolygydd@estyn.llyw.cymru |
| **Rhif Ffôn / Tel No:** | 029 2044 6446 |
| | |
| **Dyddiad / Date:** | 08.11.2021 |
| **Pwnc / Subject:** | **Ymgynghoriad - Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg Drafft - RCT** |



**Gwybodaeth gefndir am Estyn**

Estyn yw Swyddfa Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru. Fel corff y Goron, mae Estyn yn annibynnol ar Lywodraeth Cymru.

Prif nod Estyn yw codi safonau a gwella ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Caiff hyn ei nodi yn Neddf Dysgu a Sgiliau 2000 a Deddf Addysg 2005 yn bennaf. Wrth gyflawni ei swyddogaethau, mae'n rhaid i Estyn ystyried:

- Ansawdd addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Y graddau y mae addysg a hyfforddiant yn bodloni anghenion dysgwyr;
- Y safonau addysgol a gyflawnir gan ddarparwyr addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Ansawdd arweinyddiaeth a rheolaeth y darparwyr addysg a hyfforddiant hynny;
- Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol dysgwyr; a'r
- Cyfraniad a wneir at les dysgwyr.

Mae cylch gwaith Estyn yn cynnwys (ond nid yn unig) meithrinfeydd a lleoliadau nas cynhelir, ysgolion cynradd, ysgolion uwchradd, ysgolion annibynnol, unedau cyfeirio disgyblion, addysg bellach, dysgu oedolion yn y gymuned, gwasanaethau addysg llywodraeth leol, dysgu yn y gwaith, ac addysg a hyfforddiant athrawon.

Gall Estyn roi cyngor i'r Cynulliad ar unrhyw fater sy'n gysylltiedig ag addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Er mwyn cyflawni rhagoriaeth i ddysgwyr, mae Estyn wedi pennu tri amcan strategol:

- Darparu atebolrwydd i ddefnyddwyr gwasanaeth ar ansawdd a safonau addysg a hyfforddiant yng Nghymru;
- Llywio datblygiad polisi cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru;
- Meithrin gallu i wella'r system addysg a hyfforddiant yng Nghymru.

Nid yw'r ymateb hwn yn gyfrinachol.

**Ymateb**

| **Cyflwyniad**<br><br>Mae'r Cynllun hwn yn olrhain yr hyn mae'r Sir wedi ei gyflawni yn y gorffennol ynghyd â'i effaith ar brofiadau dysgwyr wrth iddynt ddilyn taith addysg statudol trwy gyfrwng y Gymraeg. Wrth gynllunio nodau i'w cyflawni yn ystod oes y Cynllun hwn, cynhwysir syniadau perthnasol ac awgrymiadau bras o'r modd gellir ehangu'r ddarpariaeth er mwyn cael effaith cadarnhaol ar brofiadau Cymraeg dysgwyr. Er enghraifft, wrth ddefnyddio cyllid wedi'i anelu'n benodol at ddatblygu neu ehangu lleoliadau gofal plant a'r blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg sydd wedi'u cydleoli ar safleoedd ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg. Mae'r cynlluniau blaenorol wedi sichrau sefydlogrwydd yn hytrach na chynydd yn nifer dysgwyr sy'n dilyn eu haddsyg statudsol yn y Gymraeg. Nodir y bydd 720 (26.9%) o ddysgwyr Blwyddyn 1 yn derbyn eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg erbyn 2032.<br><br>Fodd bynnag, ymddengys nad yw nodau'r Cynllun hwn yn ddigon uchelgeisiol er mwyn anelu at gyrraedd y targed hwn. Er enghraifft, bwriad yn unig yw ymchwilio i fodelau amrywiol o ddosbarthiadau trochi yn y Gymraeg yn hytrach na nodi'n glir darpariaeth fwriadus wrth rannu gwybodaeth a chefnogi rhieni/gwarcheidwaid i drosglwyddo eu plant i addysg cyfrwng Cymraeg ar wahanol bwyntiau mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg. Yn ogystal, nodir bod y cynllun E-sgol yn cael ei grybwyll fel cyfwrwng i ymestyn y ddarpariaeth Gymraeg ond ni chynhwysir y modd y gellid ei ddefnyddio'n weithredol yn ysgolion uwchradd Rhondda Cynon Taf. Yn neilliant 6, nodir 'bydd y Cyngor yn ymdrechu i gyflenwi darpariaeth Addysg Dysgu Ychwanegol (ADY) ddigonol i ddysgwyr sy'n gofyn amdani trwy gyfrwng y Gymraeg ynghyd â gweithlu digon o faint ac â gallu digonol.' Fodd bynnag, nid yw'r nodau'n ddigon uchelgeisiol, er enghraifft wrth nodi geiriau fel 'ymdrechu i' yn mynd i sicrhau darpariaeth gynhwysol fydd yn diwallu anghenion dysgwyr ADY trwy gyfrwng y Gymraeg.<br><br>I grynhoi, o fewn y Cynllun hwn, cynhwysir nodau perthnasol ac awgrymiadau addas o'r modd gellir cyflawni targed Llywodraeth Cymru erbyn 2050. Mae cydweithio gyda gwahanol bartneriaid fel y consortia rhanbarthol, Mudiad Meithrin a Mudiad yr Urdd yn enghreifftiau cyson o hyn. Fodd bynnag, nid yw'r Cynllun yn amlinellu nodau sy'n ddigon uchelgeisiol a bwriadus er mwyn cyflawni hyn yn ymarferol. |
|---|

**Cwestiynau'r ymgynghoriad**

Ein targed yn ystod oes deng mlynedd y Cynllun Strategol yma, wedi'i osod gan Lywodraeth Cymru, yw:

**Cynyddu canran y disgyblion Blwyddyn Un mewn addysg cyfrwng Cymraeg rhwng 8.0% a 12.0% yn ystod oes deng mlynedd y Cynllun Strategol Cymraeg yma. Mae hyn yn cyfateb i gynnydd o 506* o ddisgyblion Blwyddyn Un mewn addysg cyfrwng Cymraeg i rhwng 720 ac 825.**

***Mae'r targed yma'n seiliedig ar ddata CYBLD 2019/20.***

Mae'r targed yma'n seiliedig ar gyfrannu at y targed tymor hir cyffredinol o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050, fel sydd wedi'i nodi yn strategaeth Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr.

Yn ogystal â'r targed i gynyddu canran y dysgwyr Blwyddyn Un mewn addysg cyfrwng Cymraeg, mae'r Cynllun Strategol yn cynnwys saith deilliant neu faes sy'n nodi sut y mae disgwyl i Awdurdodau Lleol wella addysg cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg yn eu hardal. Y deilliannau, sydd wedi'u pennu gan Lywodraeth Cymru, yw:

1. **Deilliant 1:** **Mwy o ddisgyblion Meithrin / tair oed yn derbyn eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg.**
2. **Deilliant 2:** **Mwy o ddisgyblion dosbarth Derbyn / pump oed yn derbyn eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg.**
3. **Deilliant 3:** **Mwy o blant yn parhau i wella eu sgiliau iaith Gymraeg wrth bontio o un Cyfnod o'u haddysg statudol i un arall.**
4. **Deilliant 4:** **Mwy o ddisgyblion yn astudio ar gyfer cymwysterau wedi'u hasesu yn y Gymraeg (y pwnc) a phynciau trwy gyfrwng y Gymraeg.**
5. **Deilliant 5:** **Mwy o gyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyd-destunau gwahanol yn yr ysgol.**
6. **Deilliant 6:** **Cynyddu darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar gyfer disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol.**
7. **Deilliant 7:** **Cynyddu nifer y staff addysgu sy'n gallu addysgu'r Gymraeg ac addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg.**

Hoffen ni geisio'ch barn ar sut mae'r Cyngor a'i bartneriaid yn bwriadu cyflawni targed y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg a phob un o'r saith deilliant.

| Deilliant | Rhowch eich barn: |
|---|---|
| 1 | Trwy gyfrwng y Cynllun hwn, mae'r awdurdod yn cydnabod bod angen datblygu eu strategaeth ymhellach er mwyn cyrraedd y targed o 720 o ddysgwyr Blwyddyn 1 yn derbyn eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg erbyn 2032. Maent yn enghreifftio diffygion y strategaeth flaenorol, er enghraifft mae cyfeiriad at y gostyngiad yn niferoedd y Cylchoedd Meithrin y Sir a gostyngiad yn nifer o blant rhwng 2 a 4 oed sy'n mynychu'r Cylchoedd Meithrin, ac wrth gwrs mae hyn yn destun pryder. Nodir hefyd mai sefydlog yn hytrach na chynnydd sydd yn nifer y dysgwyr sy'n derbyn eu haddysg yn yr 17 o ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg y Sir, sy'n cynnwys dwy ysgol pob oed a thair ysgol gynradd dwy iaith, yn y tair blynedd academaidd flaenorol hyd at 2020. Er bod y Cyngor yn adnabod yr heriau, ar hyn o bryd mae'n anodd gweld sut y bydd nodau'r Cynllun hwn yn mynd i'r afael yn ddigon bwriadus i ymateb yn ddigon uchelgesiol er mwyn diwallu'r pryder hwn.<br><br>Cafodd y cynllun peilot Rhaglen Iechyd y Gwasanaeth Lles a Chydnerth ei lansio ym mis Hydref 2020 er mwyn darparu gwell gwasanaethau ym maes Ymwelwyr Iechyd wrth rannu gwybodaeth gyda rheini/gwarcheidwaid. Ar hyn o bryd, nid yw hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg a dysgu Cymraeg yn rhan o'r Rhaglen hon, er nodir y byddai hyn yn bosibl. Nodir byddai'r Grŵp Partneriaeth y |

| Deilliant | Rhowch eich barn: |
| --- | --- |
| | Blynyddoedd Cynnar, Gofal Plant a Chwarae y Cyngor sydd newydd ei ailsefydlu yn ddiweddar, yn gallu hyrwyddo'r budd i rieni/gwarcheidwaid o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg i'w plant fel rhan o'r strategaeth i anelu at gyrraedd y targed erbyn 2032. Fodd bynnag, nid oes cynllun bwriadus o'r modd mae datblygu gwetihdrefnau monitro sy'n fywfwy rhagweithiol er mwyn ymgyslltu'n fwriadus gyda rhieni/gwarcheidwaid wrth hyrwyddo addysg cyfrwng Cymraeg. Byddai craffu ar wybodaeth pellach er mwyn darganfod os ydy rhieni/gwarcheidwaid yn deall bod addysg Gymraeg ar gael iddynt fel dewis cydradd ar gyfer eu plant yn cryfhau nodau'r Deilliant hwn ymhellach.<br><br>Darperir tystiolaeth o Asesiadau'r Cyngor yn ddiweddar sy'n craffu ar ystod o ddata a gwybodaeth er mwyn deall yn well y lleoliadau gofal plant a'r blynyddoedd cynnar a oedd ar gael, ochr yn ochr ag anghenion rhieni/gwarcheidwaid. Blaenoriaethwyd 24 o argymhellion yn deillio o'r asesiad hwn er mwyn ceisio ehangu'r ddarpariaeth, er enghraifft wrth 'geisio recriwtio staff' ac 'archwilio'r galw am leoliadau gofal plant a'r blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg ychwanegol yn ardaloedd Cwm Rhondda a Chwm Cynon Uchaf.' Mae'r cynllun hwn wedi ei ddiweddaru yn esgor ar wybodaeth berthnasol sy'n ymdrechu i ddefnyddio Cynllun Grant Cyfalaf y Cynnig Gofal Plant a'r Cynllun Grant Cyfalaf Addysg Cyfrwng Cymraeg ar gyfer cefnogi datblygiad lleoliadau gofal plant a'r blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg. Caiff y Rhaglen Dechrau'n Deg ei hystyried fel cyfrwng i hyrwyddo'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg gan anelu y bydd 25% o ddarpariaeth gofal plant sydd wedi ei gomisiynu yn cael ei ddarparu trwy gyfrwng y Gymraeg. Ar hyn o bryd, mae tua 19.1% (126 o ddysgwyr) sy'n mynychu lleoliadau gofal plant Rhaglen Dechrau'n De gyn mynychu lleoliad gofal plant a'r blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg. Nodir y bydd dysgu proffesiynol trwy gyfrwng hyfforddiant cyfrwng Cymraeg perthnasol yn cael ei ddarparu ar gyfer staff ond bwriadau yn hytrach na chynlluniau bwriadus sy'n cael eu nodi'n y Cynllun.<br><br>Nodir bod y Sir eisoes yn cydweithio gyda Mudiad Meithrin i defnyddio'r cynllun Croesi'r Bont a gweithredu'r rhaglen 'Clebran' i gefnogi defnyddio'r Gymraeg mewn lleoliadau gofal plant a blynyddoedd cynnar cyfrwng Saesneg sy'n Ddarparwyr Addysg Cofrestredig. O fewn y garreg filltir cyntaf o weithredu o fewn y pum mlynedd cyntaf, nodir bydd y Sir yn parhau i gydweithio gyda Mudiad Meithrin i annog rhieni/gwarcheidwaid i gofrestru ar gwrs Clwb Cwtsh a chynyddu'r niferoedd sy'n mynychu. Fodd bynnag, nid oes manylion yn y cynllun am weithredu bwriadus wrth gydweithio gyda phartneriaid allanol. Er enghraifft, nodir 'bydd Carfan Gofal Plant yn parhau i hyrwyddo a chodi ymwybyddiaeth o'r lleoliadau gofal plant a'r blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg sydd ar gael i rieni/gwarcheidwaid' ond nid oes strategaeth weithredol i gyflawni hyn. |

| Deilliant | Rhowch eich barn: |
|---|---|
| | Nodir y bydd saith o brosiectau'n cael eu cwblhau o fewn pum mlynedd cyntaf y cynllun hwn, sef cefnogi gwaith cyfalaf wrth hwyluso twf mewn addysg cyfrwng Cymraeg. Gwneir hyn trwy ddefnyddio cyllid wedi'i anelu'n benodol at ddatblygu neu ehangu lleoliadau gofal plant a'r blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg sydd wedi'u cydleoli ar safleoedd ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg. Proffwydir y bydd cynnydd o 65% yn nifer y lleoedd a fydd ar gael i ddysgwyr oedran meithrin neu dair oed wrth weithredu'r cynllun hwn.<br><br>Mae polisi teithio cyfredol y Cyngor yn nodi bod dysgwyr sy'n mynychu'r ysgolion cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog agosaf yn cael gwasanaeth cludiant am ddim yn unol â pholisi'r Cyngor ynghylch pellter cerdded a llwybrau diogel. Mae'r wybodaeth am y polisi hwn yn amwys yn nhermau os ydy disgyblion yn cael cludiant am ddim i ysgolion cyfrwng Cymraeg a Saesneg. Nid oes bwriad i adolygu'r mesur hwn yn y tymor byr. O ganlyniad, bydd hyn yn cefnogi rhieni/gwarcheidwaid i gyflawni eu dymuniad am drafnidiaeth am ddim i'w plant wrth iddynt ddewis taith addysg statudol eu plentyn yn ddi-dor trwy gyfrwng y Gymraeg i'w plentyn.<br><br>Mae cyfeiriad amwys at gyllid trwy gyfrwng amryfal grantiau er mwyn gweithredu nodau'r Cynllun hwn ond nid oes buddsoddiad hir dymor wedi ei gytuno er mwyn cefnogi'r dymuniad i ehangu'r ddarpariaeth i gyrraedd y targed o 720 (26.9%) o ddysgwyr Blwyddyn 1 yn derbyn eu haddysg cyfrwng Cymraeg erbyn 2032. |
| 2 | Mae'r Cynllun yn nodi bod 17 o ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg, sy'n cynnwys dwy ysgol pob oed sy'n darparu addysg cyfrwng Cymraeg ynghyd â thair ysgol dwy iaith ar gyfer plant 3 i 11 oed yn y Sir. Nodir bod sefydlogrwydd yn niferoedd y disgyblion sy'n mynychu lleoliadau cyfrwng Cymraeg a Saesneg ond bod cynnydd yn nifer y dysgwyr sy'n mynychu darpariaeth Derbyn neu sy'n pump oed mewn ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg. Er bod nifer y lleoedd sydd ar gael ym mhob ysgol yn cael ei adolygu'n flynyddol a bod llefydd gweigion o 19.6% mewn ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg, mae'r strategaeth o hyrwyddo addysg Gymraeg o fewn y Cynllun hwn yn amwys.<br><br>Mae'r Cynllun yn nodi'r camau gweithredu sydd wedi cymryd lle eisoes er mwyn ymateb i'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg trwy ddarparu mwy o leoedd ar gyfer dysgwyr. Fodd bynnag, nodir trwy amcangyfrifon arfaethedig y bydd yn debygol bydd 28.1% o lefydd gweigion mewn ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg yn y pum mlynedd diwethaf. Nid oes amlinelliad o gynllunio strategol, er enghraifft trwy gyfrwng y Grŵp Strategol, sy'n ymdrechu i leihau'r llefydd gweigion hyn nac yn wir i gynyddu'r nifer o ddysgwyr yn fwyaf penodol fydd yn mynychu ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg o fewn y pum a'r deng mlynedd nesaf. |

| Deilliant | Rhowch eich barn: |
|---|---|
| | Mae’r Cynllun yn amlinellu buddsoddiad trwy gyfrwng cyllid gan Fand B Rhaglen Ysgolion a Cholegau’r 21ain Ganrif Llywodraeth Cymru a Rhaglen Gwaith Cyfalaf Mân. Er enghraifft, er mwyn ymateb i’r galw mewn ardaloedd penodol o’r Sir, mae’n fwriad diwygio cyfrwng iaith un ysgol, darparu estyniad a safle newydd i ddwy ysgol ynghyd â darparu ysgol gynradd dwy iaith newydd sy’n estyniad i ysgol sydd eisoes wedi ei sefydlu. Nid yw’r cynllun yn nodi’n benodol y buddsoddiad uniongyrchol a hir dymor wrth hyrwyddo datblygiadau’r ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg.<br><br>Mae'r Cynllun yn nodi bod y Cyngor yn cydnabod pwysigrwydd trochi yn y Gymraeg i ddysgwyr sy'n dymuno pontio o addysg cyfrwng Saesneg i'r Gymraeg, er mwyn annog unigolion i dderbyn addysg Gymraeg. Nid oes darpariaeth canolfan trochi iaith yn y Sir gan bod ysgolion yn derbyn cefnogaeth a chyllid yn uniongyrchol er mwyn cefnogi dysgwyr i gaffael y Gymraeg ar wahanol adegau o’u taith addysg statudol. Serch hyn, nid oes gwerthusiad o’r gefnogaeth hon tra’n olrhain cynnydd hwyrddyfodiaid wrth iddynt ddatblygu eu medrau Cymraeg gan eu bod ‘yn ystyried bod hyn yn gweithio’n effeithiol’. Yn ogystal, bwriad yn unig yw ymchwilio i fodelau amrywiol o ddosbarthiadau trochi yn y Gymraeg. Byddai ymchwilio i’r posibilrwydd o gydweithio gydag awdurdodau lleol cyfagos wrth ddarparu addsyg drochi yn cryfhau’r nod o fewn y Deilliant hwn. |
| 3 | Mae’r Cynllun yn nodi bod cynnydd o 30% o ddysgwyr sy’n symud o Gylchoedd Meithrin i addysg cyfrwng Cymraeg rhwng 2015-2016 a 2019-2020. Mae’r Cynllun yn nodi bod angen sicrhau bod lleoliadau gofal plant a blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg wedi’u lleoli ar safleoedd ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg er mwyn hyrwyddo mynediad ehangach i addysg cyfrwng Cymraeg, sydd eisoes wedi ei nod fel rhan o ddeilliant 1.<br><br>Dengys trwy ymarferion mapio y Sir hefyd, ei bod yn ymddangos nad yw’r cyfraddau pontio ar gyfer dysgwyr rhwng cyfnodau allweddol ar gyfer disgyblion cynradd ac uwchradd cyfrwng Cymraeg yn destun pryder, hyn yn rhannol gan bod disgyblion sy’n mynychu ysgolion y Sir yn byw tu hwnt i’r Bwrdeistref Sirol. Er enghraifft, mae disgyblion yn mynychu Ysgol Gyfun Rhydywaun gan nad oes darpariaeth uwchradd cyfrwng Cymraeg ym Mwrdeistref Sirol Merthyr Tudful. Byddai’n ddefnyddiol cynnwys gwybodaeth am gyfraddau trosglwyddo disgyblion o fewn yr awdurdod er mwyn cael darlun clirach o’r sefyllfa gyfredol. Fodd bynnag, nodir bod cyfraddau cadw disgyblion rhwng cyfnodau allweddol 4 a chyfnod allweddol 5 yn bryder ond nid oes cynllun penodol er mwyn mynd i’r afael â’r her hon. Mae’n rhaid ystyried wrth gwrs bod nifer o ddisgyblion sy’n mynychu’r ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg hon yn byw y tu hwnt i Gyngor Bwrdeistref Rhondda Cynon Taf. |

| Deilliant | Rhowch eich barn: |
|---|---|
| | Mae'r Cynllun yn amlinellu bod angen i'r Grŵp Strategol y Cynllun Strategol weithio ar y cyd gyda phartneriaid eraill ond nid oes manylion am yr hyn maent yn fwriadu ei gyflawni. Ar hyn o bryd, nid yw'r cynllun yn nodi nodau digon bwriadus na chynllun strategol er mwyn ymateb i'r her o gadw dysgwyr cyfnodau allweddol 4 a 5 mewn addysg cyfrwng Cymraeg. Mae'r ystadegau sy'n cael eu nodi fel cyfraddau pontio rhwng pob cyfnod allweddol yn adlewyrchiad o ddiffyg her y deilliant hwn o gefnogi sicrhau llwybr parhaus a dilyniant ieithyddol cyfrwng Cymraeg i ddysgwyr yn gyffredinol. |
| 4 | Mae'r Cynllun yn nodi bod nifer y lleoedd sydd ar gael ym mhob ysgol yn cael ei adolygu'n flynyddol gan Gyfarwyddiaeth Addysg a Gwasanaethau Cynhwysiant y Cyngor. Ar hyn o bryd, yn seiliedig ar ddata CYBLD 2019-2020, roedd 23.1% o leoedd dros ben mewn ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg gan ragweld y bydd hyn yn codi i 24.1% yn ystod y pum mlynedd academaidd nesaf. Fodd bynnag, mae yna ychydig o ysgolion uwchradd lle mae angen rhagor o leoedd, felly mae camau gweithredu ar waith i fynd i'r afael â'r materion hyn. Er enghraifft, amlinellir y bydd grantiau gwahanol, gan gynnwys grant Band B Rhaglen uchelgeisiol Ysgolion a Cholegau'r 21ain Ganrif y Cyngor, yn cynnwys ystod o brosiectau gwerth cyfanswm o £160 miliwn yn cael eu defnyddio er mwyn ymateb i hyn. Mae hyn yn cynnwys nifer o brosiectau sy'n cynnig cynyddu nifer y lleoedd mewn ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg.<br><br>Nodir bod pob ysgol uwchradd cyfrwng Cymraeg y Sir yn gweithio ar y cyd, yn ogystal â chyda darparwyr eraill, gan gynnwys Coleg Y Cymoedd, i ddarparu addysg ar gyfer cymwysterau TGAU, Uwch Gyfrannol a Safon Uwch trwy gyfrwng y Gymraeg. Serch hynny, nid ydynt yn mynd i'r afael â'r her ei bod yn anos i ddysgwyr gyrraedd darparwyr o'r fath oherwydd lleoliad daearyddol yr ysgolion uwchradd. Mae'r cynllun E-sgol yn cael ei grybwyll ond ni chynhwysir y modd y gellid ei ddefnyddio'n weithredol yn ysgolion uwchradd Rhondda Cynon Taf. Nid yw'r Cynllun hwn yn amlinellu'r arlwy o bynciau sydd ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg nac yn darparu cynllun bwriadus i ehangu'r ddarpariaeth fel rhan o'r weledgiaeth i gefnogi a chyfoethogi profiad addysgol dysgwyr wrth iddynt astudio'r Gymraeg fel pwnc neu drwy astudio pynciau neu feysydd eraill drwy gyfrwng y Gymraeg. Yn ogystal, nid yw'r Cynllun yn mynd i'r afael â datblygu medrau Cymraeg dysgwyr fel ail iaith mewn ysgolion cyfrwng Saesneg yn ddigon bwriadus.<br><br>Mae'r Sir wedi cynnal cynllun peilot Rhaglen Meincnodau Gyrfaoedd Da Gatsby i ddatblygu ystod ehangach o lwybrau dysgu ar gyfer dygwyr 14-19 oed wrth baratoi ar gyfer byd gwaith, hyfforddiant ac addysg bellach. Bydd hyn yn cael ei ddatblygu ymhellach trwy gyfrwng Model Mentora Gatsby yn y dyfodol. Serch hyn, nid oes unrhyw gyfeiriad at gynyddu nifer y dysgwyr sy'n astudio ar gyfer |

| Deilliant | Rhowch eich barn: |
|---|---|
| | cymwysterau wedi eu hasesu yn y Gymraeg nac wrth iddynt ddilyn pynciau trwy gyfrwng y Gymraeg. |
| 5 | Mae'r Cynllun yn nodi'r pwysigrwydd o'r angen i gefnogi dysgwyr ynghyd â'u rhieni/gwarcheidwaid a'r gymuned ehangach, i gymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau diwylliannol, cymdeithasol a chwaraeon trwy gyfrwng y Gymraeg. Nodir ei bod yn bwysig cyflawni hyn yn eu hysgol gynradd ac uwchradd er mwyn gwella eu hyder a sicrhau eu bod yn parhau i fod yn rhugl yn y Gymraeg. Cefnogwn y ffaith bod gweithgareddau'r Siarter Iaith a Cymraeg Campus i'w gymeradwyo yn yr ysgolion ynghyd â chynlluniau arfaethedig eraill fel prosiect Cymraeg Bob Dydd yr Urdd er mwyn cyflawni hyn. Ar hyn o bryd, mae'r cynllun yn nodi'r dyhead bod pob ysgol yn cyflawni nodau'r Siarter Iaith erbyn diwedd oes y Cynllun Strategol, sy'n amlygu diffyg uchelgais ym mwriadau'r Cyngor. Hefyd, nid oes manylion yn y cynllun am y modd y bydd Strategaeth Hybu'r Gymraeg Rhondda Cynon Taf yn gweithredu'n ymarferol er mwyn annog a hwyluso'r twf mewn addysg cyfrwng Cymraeg ac addysgu'r Gymraeg yn y tymor hir.<br><br>Mae Carfan Gwasanaethau Diwylliannol yn trefnu rhai digwyddiadau Cymraeg ar gyfer disgyblion, a'r Gwasanaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad Ieuenctid y Cyngor ac yn cyflogi Swyddogion Ymgysylltu ag Ieuenctid sy'n siarad Cymraeg mewn gwahanol gyd-destunau er mwyn darparu cyfleodd i ddysgwyr ddefnyddio'u Cymraeg mewn gweithgareddau llai ffurfiol. Nodir bydd Swyddog Ymgysylltu ag Ieuenctid sy'n siarad Cymraeg ym mhob ysgol uwchradd Gymraeg o hyd, yn ogystal â mewn rhai ysgolion uwchradd cyfrwng Saesneg hefyd. Mae hyn yn ymdrech i normaleiddio'r Gymraeg ac yn annog dysgwyr i'w defnyddio y tu allan i'r ystafell ddosbarth. Ni ddarperir tystiolaeth o effaith y ddarpariaeth gyfredol ar gyfleoedd ehangach i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd anffurfiol. Er enghraifft, nid oes tystiolaeth bod y Gymraeg yn cael ei chynrychioli'n briodol yn Fforwm Ieuenctid y Sir. Fodd bynnag, mae'r cynllun yn nodi bydd y Cyngor yn cryfhau cysylltiadau cyfredol gyda Mudiad yr Urdd a Menter Iaith y Sir er mwyn datblygu'r ddarpariaeth trwy gyfrwng y Gymraeg yn yr ysgolion cynradd ac uwchradd.<br><br>Mae'r cynllun yn dathlu'r ffaith bydd y Bwrdeistref Sirol yn gartref i Eisteddfod Genedlaethol Cymru yn 2024 a bod hyn yn dangos ymrwymiad y Cyngor i gyfrannu at y nod o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg yng Nghymru erbyn 2050. Hyderir y bydd cyfleoedd i hyrwyddo'r Gymraeg ac i ddysgwyr ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwahanol gyd-destunau yn yr ysgol a thu hwnt. Mae'n rhy fuan iddynt gyflwyno cynlluniau o'r modd y bydd yn manteisio ac yn hyrwyddo hyn ymysg dysgwyr a'u rhieni/gwarcheidwad wrth hyrwyddo'r Gymraeg ymhellach fel rhan o nodau'r deilliant hwn. Serch hyn, nid oes gwybodaeth am gynlluniau bwriadus o'r modd y byddai achlysur |

| Deilliant | Rhowch eich barn: |
|---|---|
| | cenedlaethol o'r fath yn gallu dylanwadu'n gadarnhaol ar agweddau dysgwyr at y Gymraeg ynghyd â'r cyfleodd bwriadus posibl a fyddai'n fanteisiol i ddysgwr o bob oed i ddefnyddio'r Gymraeg yn fwyfwy rhagweithiol mewn cyd-destun Cymreig ei naws. |
| 6 | Mae'r Cynllun yn nodi'r ddarpariaeth Addysg Dysgu Ychwanegol (ADY) gyfredol sydd ar gael er mwyn cefnogi dysgwyr y Sir gan nodi dyraniad cyllid o £3.4 miliwn o Gyllid Anghenion Ychwanegol sy'n cael ei fuddsoddi ar gyfer cefnogi dysgwyr ADY mewn modd gynhwysol sy'n mynychu ysgolion cynradd ac uwchradd. Mae Carfan Anghenion Cymhleth Cymru, sef carfan o gefnogaeth arbenigol peripatetig sy'n cynnwys athro arbenigol Cymraeg ei iaith a dau gynorthwy-ydd cynnal dysgu, yn cefnogi dysgwyr ADY trwy gyfrwng y Gymraeg, yn darparu cefnogaeth arbenigol i ddysgwyr. Mae'r Cyngor yn nodi bod y gwasanaeth cynhwysol hwn wedi bod yn gadarnhaol ond ni ddarperir tystiolaeth i gefnogi'r safbwynt hwn.<br><br>Yn dilyn craffu ar nifer y gwaharddiadau a chynnydd yn nifer y ceisiadau am leoliadau Anawsterau Cymdeithasol, Emosiynol ac Ymddygiadol, nodir yn y Cynllun bod angen gwella'r ddarpariaeth Dosbarthiadau Cynnal Dysgu o fewn y Sir. Yn dilyn hyn, amlinellwyd bod angen newid gwahanol elfennau o'r ddarpariaeth, er enghraifft wrth greu dosbarthiadau cynnal dysgu arbenigol ar gyfer disgyblion cyfrwng Cymraeg cyfnod allweddol 3 a 4 sydd ag anghenion ADY sylweddol. Fodd bynnag, am amryfal resymau fel effaith y pandemig ar y ddarpariaeth, nid yw'r cynigion hyn wedi eu gweithredu eto. O ganlyniad i hyn, ym Medi 2020, mae cyllid wedi ei ddarparu i sefydlu darpariaeth amgen fewnol mewn ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg y Sir er mwyn diwallu anghenion dysgwyr sydd ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol yn yr ysgolion hynny. Nid yw'r Cynllun yn nodi y modd maent yn bwriadu monitro a gwerthuso'r ddarpariaeth fel cyfrwng i flaengynllunio'r ddarpariaeth yn fwriadus yn y tymor byr a chanolig. Yn ogystal, ni chynhwysir cynllun strategol sy'n darparu gweledigaeth hir dymor fydd yn cefnogi dysgwyr sydd ag angehnion ADY penodol yn y Sir.<br><br>Mae'r Cyngor yn anelu at ddatblygu dull rhanbarthol i gefnogi darpariaeth cyfrwng Cymraeg a chynyddu cysondeb a rhannu arferion gorau fel rhan o datblygu darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn unol â'r Cynllun Trawsnewid ADY Rhanbarthol 2020-2021. Nid yw'r Cynllun yn manylu ar gynlluniau strategol o'r modd bydd hyn yn cael ei weithredu'n ymarferol nac yn amlinellu'r gefnogaeth i ddysgwyr yn y sector Cymraeg.<br><br>At ei gilydd, nid yw amcanion y deilliant hwn yn mynd i'r afael â sicrhau darpariaeth gynhwysol nac arbenigol i ddysgwyr ADY sy'n dilyn eu llwybr addysg trwy gyfrwng y Gymraeg, yn gyffredinol. Nid yw'r weledigaeth yn sicrhau cynllunio bwriadus wrth gefnogi'r dysgwyr, er enghraifft, nodir 'bydd y Cyngor yn ymdrechu i gyflenwi darpariaeth |

| Deilliant | Rhowch eich barn: |
|---|---|
| | ADY ddigonol i ddysgwyr sy'n gofyn amdani trwy gyfrwng y Gymraeg ynghyd â gweithlu digon o faint ac â gallu digonol.' Nid yw'r nodau'n ddigon uchelgeisiol i sicrhau darpariaeth gynhwysol fydd yn diwallu anghenion dysgwyr ADY trwy gyfrwng y Gymraeg. |
| 7 | Mae'r Cynllun yn nodi sefyllfa gweithlu cyfredol y Sir ynghyd â'r cyfrifoldeb o sicrhau gweithlu sy'n medru'r Gymraeg mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar ac ysgolion, er enghraifft bod 17.3% o weithlu'r ysgolion yn meddu sgiliau iaith rhugl neu weddol rugl (sgiliau Cymraeg lefel tri, pedwar neu bump). Yn ogystal, dengys CYBLD 2020 bod 39% o weithlu ysgolion yn medru'r Gymraeg i lefel canolradd, rhugl neu uwch. Nodir bod 27.7% o'r gweithlu yn addysgu neu'n gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg ond nid yw 6.9% o'r gweithlu yn gwneud hyn yn eu swyddi presennol ar hyn y o bryd. Byddai cynnwys gwybodaeth fanylach sy'n ymateb i nodau'r deilliant hwn yn fuddiol, er engrhaifft os ydy'r Sir yn craffu ac yn ymateb yn ddigon rhagweithiol i heriau fel recriwtio staff sy'n meddu ar sgiliau Cymraeg cadarn a sicrhau dilyniant anochel wrth i staff ymddeol yn y sector Gymraeg.<br><br>Trwy weithredu cynlluniau Llywodraeth Cymru a chyd-weithio gyda phartneriaid ar lefel rhanbarthol, mae'n fwriad gan y Sir i weithredu strategaethau sy'n cynnwys nodau fel 'hyrwyddo llwybr i addysg Gymraeg' a'r 'Cynllun Sabothol y Gymraeg' er mwyn anelu at gyrraedd nodau'r deilliant hwn. Nid oes manylion am gynllunio bwriadus a gweithredol yn cael eu cynnwys er mwyn cyrraedd y targedau sy'n cael eu hamlinellu yn y Cynllun hwn.<br><br>Mae'r Cynllun yn nodi bod cydweithio rhwng ysgolion uwchradd cyfrwng Cymraeg o fewn a thu hwnt i'r Sir gyda Phrifysgol Metropolitan Caerdydd yn enghraifft o gydweithio wrth gefnogi 15 o ymarferwyr TAR trwy gyfrwng y Gymraeg yn 2020-2021. Yn ogystal, nodir bod Mudiad yr Urdd yn darparu ystod o gyfleoedd i bobl ifanc dros 17 oed i ddatblygu eu gyrfa trwy gyfrwng y Gymraeg gyda'r nod o gryfhau'r cysylltiadau gyda'r Mudiad ymhellach yn y dyfodol. Ni ddarperir cynlluniau sy'n nodi nodau bwriadus er mwyn sicrhau cynnydd yng ngweithlu'r Sir sy'n gallu gweithio'n gynyddol hyderus yn y Gymraeg. |

O dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 a Dyletswyddau Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus, mae gan y Cyngor ddyletswydd gyfreithiol i ystyried sut mae ei benderfyniadau yn effeithio ar bobl oherwydd efallai bod nodweddion penodol gyda nhw.

Sut byddai'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yn effeithio arnoch chi o safbwynt y canlynol?

| Nodwedd | Sut byddai'r Cynllun Strategol yn effeithio arnoch chi? |
|---|---|

| | |
|---|---|
| Rhywedd | |
| Oed | |
| Ethnigrwydd | |
| Anabledd | |
| Rhywioldeb | |
| Crefydd neu Gred | |
| Hunaniaeth Rywedd | |
| Statws perthynas | |
| Beichiogrwydd | |
| Iaith o ddewis | |

O ran Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg a'r effaith y gallai ei gael, rhowch wybod i ni sut byddai'r cynnig yn effeithio (yn gadarnhaol neu'n negyddol) ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a'i hybu, ac a fyddai'n trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg mewn unrhyw ffordd?

| | |
|---|---|
| Sut byddai modd estyn effeithiau cadarnhaol, neu leihau effeithiau negyddol? | |

Diolch i chi am roi adborth i ni.